

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL - DYDD MERCHER, 17 IONAWR 2024

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWDYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEN, PEN-Y-BONT AR OGWR , CF31 4WB AR DDYDD MERCHER, 17 IONAWR 2024 AM 10:00

Yn bresennol

Y Cyngorydd A Williams – Cadeirydd

F D Bletsoe

M Jones

Yn bresennol yn rhithiol

H T Bennett
M L Hughes

P Davies
T Thomas

RM Granville
G Walter

S J Griffiths
AJ Williams

Ymddiheuriadau

RL Penhale-Thomas

Gwahoddedigion:

Y Cyngorydd Huw David
Y Cyngorydd Jane Gebbie
Y Cyngorydd Hywel Williams
Y Cyngorydd Rhys Goode

Arweinydd y Cyngor
Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros Iechyd Gwasanaethau Cymdeithasol
Aelod Cabinet dros Gyllid, Adnoddau a Chyfreithiol
Aelod Cabinet dros Dai, Cynllunio ac Adfywio

Mark Shephard
Carys Lord
Kelly Watson

Prif Weithredwr
Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid
Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol

Deborah Exton
Martin Morgan
Christopher Morris

Dirprwy Bennaeth Cyllid
Pennaeth Gwasanaethau Partneriaeth
Rheolwr Cyllid – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant / Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL - DYDD MERCHER, 17 IONAWR 2024

Swyddogion:

Laura Griffiths
Joanne Norman
Alex Rawlin
Rachel Keepins
Meryl Lawrence
Stephen Griffiths

Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
Rheolwr Grŵp – Rheoli Cyllideb
Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Craffu
Swyddog Craffu Dros Dro/Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau

Datganiadau Buddiannau

Dim

100. Cymeradwyo Cofnodion

Penderfyniad a Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol dyddiedig 14 Rhagfyr 2023 fel cofnod gwir a chywir.
Dyddiad y Penderfyniad a Wnaed	17 Ionawr 2024

101. Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2024-25 i 2027-28

Penderfyniad a Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelodau'r Cabinet a Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion canlynol: 1. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid gwella'r cyfathrebu â'r cyhoedd gan ddefnyddio cynifer o ddulliau gwahanol â phosibl ac y dylid dosbarthu graffigyn siart cylch syml i drigolion y fwrdeistref yn nodi o ble
----------------------	---

	<p>y daw'r arian a sut y caiff ei wario.</p> <ol style="list-style-type: none">2. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cael opsiwn wyneb yn wyneb ar gyfer yr ymgynghoriad ar y Gyllideb a mecanweithiau eraill a dulliau cyfathrebu gwahanol i gyrraedd pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, gan ystyried pryderon a fynegwyd gan breswylwyr a oedd yn teimlo eu bod wedi'u difreinio gan nad oeddent yn gallu cael gafael ar ymgynghoriad ar-lein ar y gyllideb.3. Gofynnodd y Pwyllgor am restr o'r holl wasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i breswylwyr, busnesau, pwy bynnag, gan gynnwys a oes ganddynt lefel o elfen statudol neu a ydynt yn gwbl anstatudol, gan ddeall ei fod yn ddarn sylweddol o waith ond yn darparu digon o fanylion i fwydo i'r Panel Gwerthuso ac Ymchwilio i'r Gyllideb (BREP) ar gyfer ystyriaethau Cyllideb y flwyddyn nesaf a'r angen i nodi arbedion yn y dyfodol ar gyfer y blynyddoedd nesaf tra'n deall effaith newidiadau posibl ar breswylwyr. Argymhellodd y Pwyllgor y gallai proses BREP yn y dyfodol fod ar y gofrestr gwasanaethau honno i hysbysu penderfyniadau yn y dyfodol.4. Yn dilyn trafodaethau ynghylch cylch gwaith BREP a'r Rhaglen Gyfalaf ac y byddai Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig yn cael ei hystyried gan y Cyngor ym mis Chwefror, cynigiodd y Pwyllgor y dylai'r Rhaglen Gyfalaf y flwyddyn nesaf fod yn rhan o'r broses BREP er mwyn edrych ar y manylion a chraffu'n ddigonol, a gofynnodd hefyd a allai Cylch Gorchwyl BREP gael ei ddiwygio gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol (COSC) i ailddiffinio'r cylch gwaith ar gyfer y flwyddyn nesaf. Croesawodd y Pwyllgor yr ymateb gan y Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol bod BREP yn eithaf unigryw i Ben-y-bont ar Ogwr ac nad oedd mor syml â COSC yn penderfynu beth allai BREP ei wneud. Mae yna broses, a gellid edrych ar opsiynau eraill i weld a oedd rhywbeth mwy ymarferol ond y byddai angen ei dynnu i ffwrdd a datblygu rhai cynigion i'w rhoi gerbron y corff perthnasol i wneud penderfyniad.5. Yn dilyn trafodaeth ynghylch gostyngiadau staffio ar draws sawl maes o brif wasanaethau swyddfa gefn y Cyngor, gofynnodd y Pwyllgor am asesiad effaith ansoddol o'r holl newidiadau hynny gyda'i gilydd i ddeall effaith y gostyngiad hwn yn nifer y cyfrif pennau a'r effaith sylweddol yn y tymor hwy, a chroesawodd ymateb y Prif Weithredwr i'r angen i ystyried pa mor gyraeddadwy y byddai ac y byddai'n trafod gyda chydweithwyr a ellid gwneud hyn.6. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid mynd ati i archwilio cyfleoedd posibl i gynhyrchu incwm drwy rannu gwasanaethau, gan fynd ati'n rhagweithiol i gynnig gwasanaethau'r Awdurdod lle mae potensial i gynhyrchu incwm, er mwyn lliniaru rhai o'r gostyngiadau yn y gyllideb yn y dyfodol a fyddai'n ofynnol yn ystod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.
--	--

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL - DYDD MERCHER, 17 IONAWR 2024

	<p>7. Trafododd y Pwyllgor gyfrifoldebau strategol na fydd yr Awdurdod yn gallu eu cyflawni, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none">- Llai o dderbyniadau cyfalaf yn lleihau'r gallu i fenthycu ar gyfer prosiectau cyfalaf, gan fod benthyca'n seiliedig ar y gallu i ad-dalu.- Anallu i gyflawni'r Cynllun Trafnidiaeth Strategol, ac ati. <p>a. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r risgiau hyn a risgiau tebyg eraill gael eu cynnwys yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol a chael eu harchwilio'n briodol ac yn amodol ar adolygiad gwrthrychol o reoli risg i sicrhau bod y risgiau'n cael eu dadansoddi a'u lliniaru'n briodol.</p> <p>b. Argymhellodd y Pwyllgor hefyd y dylai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol fonitro risg weithredol fel y Pwyllgor Craffu Corfforaethol trosfwaol, yn ogystal â monitro llywodraethu a risg ariannol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.</p> <p>8. Cytunodd y Pwyllgor i ohirio unrhyw argymhellion terfynol ychwanegol tan gyfarfod COSC ar 30 Ionawr 2024, pan fyddai'r holl Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu Pwnc yn cael eu derbyn.</p>
Dyddiad y Penderfyniad a Wnaed	17 Ionawr 2024

102. Eitemau Brys

Penderfyniad a Wnaed	Dim
Dyddiad y Penderfyniad a Wnaed	17 Ionawr 2024

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen [hon](#) ar gyfer Rhan Un a'r ddolen [hon](#) ar gyfer Rhan Dau.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:56.